| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 14 Tachwedd 2012 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asedau |
| **Teitl:** | Adroddiad Diweddaru Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 1) |

## 1 Ynghylch beth mae'r adroddiad?

1.1 Mae manylion yn Adroddiad Diweddaru Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 1) o weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor a hefyd y cefndir ynghylch buddsoddiadau a Datganiad blynyddol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

1.2 Mae'r term 'rheoli trysorlys' yn cynnwys rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian y cyngor. Mae tua £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrifon banc y cyngor mewn blwyddyn. Mae benthyciadau'r cyngor ar hyn o bryd yn £134 miliwn a'r llogau blynyddol, ar gyfartaledd, yn 5.75%. Ar unrhyw un adeg o'r flwyddyn bydd gan y cyngor £20-£35 miliwn i'w fuddsoddi a fydd yn ennill, ar gyfartaledd, logau o 0.70%, ar hyn o bryd.

## 2 Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Cytunodd y Cyngor ar 27 Hydref 2009 y bydd llywodraethu rheoli'r trysorlys yn cael ei archwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Rhan o'r swyddogaeth hon yw adolygu gwaith Rheoli'r Trysorlys ddwywaith y flwyddyn. Hwn yw ail ddiweddariad y flwyddyn ond mae hefyd wedi'i ymestyn i gynnwys gwybodaeth ynghylch Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan ei fod yn dod o flaen yr adroddiad fis Ionawr a fydd yn cynnwys Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013 / 14.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad diweddaru Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 1).

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae adroddiad diweddaru Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 1) yn cynnwys manylion y canlynol:

- Yr amgylchedd economaidd allanol
  - Diweddariad ar unrhyw newidiadau yn yr amodau economaidd byd-eang
- Buddsoddiadau
  - Diweddariad o gyda phwy rydym ni'n buddsoddi a'r sefyllfa bresennol

- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys

    - Amlinelliad byr o'r hyn sy'n cael ei gynnwys cyn yr adroddiad fis Ionawr

- Dangosyddion Darbodus

    - Eglurhad o'r dangosyddion gan gynnwys manylion o ba bryd y maen nhw'n cael eu gosod a chyflwyniad byr

- Golchi Arian

    - Diweddariad ar y Polisi Golchi Arian yn cadarnhau na chododd unrhyw achos

- Gweithgaredd yn y Dyfodol

    - Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer y chwe mis nesaf

**5 Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd penderfyniadau da ynghylch buddsoddi a benthyca yn golygu y bydd y cyngor yn gallu cyfeirio adnoddau ychwanegol at wasanaethau eraill .

**6 Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Amherthnasol

**7 Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i ymgynghorwyr y trysorlys, Arlingclose Ltd.

**8 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

8.1 Mae Rheoli'r Trysorlys yn anorfod yn cynnwys risg, ond mae'r Cyngor yn monitro ac yn rheoli'r risgiau hynny fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl cael gwared ar y risgiau yma'n gyfan gwbl. Mae strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y cyngor yn cael eu harchwilio bob blwyddyn; roedd yr archwiliad mewnol diweddaraf yn bositif ac ni chafodd unrhyw broblemau arwyddocaol eu codi.

**9 Yr Hawl i Benderfynu**

9.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) yn gofyn i awdurdodau lleol dalu sylw i Gôd Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg ynghylch Rheoli'r Trysorlys sy'n dweud fod yn rhaid i'r Cyngor baratoi diweddariadau rheolaidd yngylch Rheoli'r Trysorlys.